
# Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Rheoliadau i Gymru a fydd yn helpu i weithredu Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019




Mae hon yn ddogfen Hawdd ei Darllen gan Lywodraeth Cymru

# Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019




Mae Llywodraeth y DU yn creu deddf newydd: Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019.



Mae'n ymwneud ag amddiffyn pobl sydd heb **alluedd** i wneud penderfyniadau.


**DoLS** 

Bydd y cynllun Diogeliadau Amddifadu o Ryddid (DoLS) yn dod i ben.


**LPS** 

Bydd y cynllun **LPS** newydd yn dechrau.

**LPS** yw **Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid.**



Bydd gan Gymru gyfreithiau newydd (**Rheoliadau**) am sut bydd yr **LPS** yn gweithio.




Mae 4 **Rheoliad** newydd.



Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i bobl beth yw eu barn am y **Rheoliadau** newydd hyn.




I helpu pobl deall y **Rheoliadau**, mae Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu Asesiad o'r Effaith Rheoleiddiol.




Dyma fersiwn hawdd ei darllen o'r Asesiad o'r Effaith Rheoleiddiol.

**Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid**

Ar ddiwedd y ddogfen hon mae rhestr o’r geiriau mewn **glas** sydd ag ystyr arbennig.




# Mae'r Asesiad o'r Effaith Rheoleiddiol hwn yn dweud



- Sut y bydd pethau'n well.



- Faint o arian fydd yn ei gostio.



- Sut y bydd yn effeithio ar bobl.



Dywedwch wrthyn ni os ydych yn cytuno neu'n anghytuno.

# Cymharu DoLS â'r LPS newydd




## 1. Arian



Rydyn ni wedi seilio ein ffigurau ar yr hyn y mae Llywodraeth y DU yn ei ddweud.



Mae hyn wedi ein helpu i ganfod yr hyn y meddwl y bydd yn costio i Gymru.

## Paratoi ar gyfer yr **LPS**

**£5 miliwn**




Rydyn ni'n meddwl y bydd yn costio £5 miliwn i baratoi ar gyfer yr **LPS**.

**£4 miliwn**




- Bydd hyn yn cynnwys £4 miliwn i hyfforddi staff i fod yn barod, a

**£0.5 miliwn**



- £0.5 miliwn i baratoi'r systemau a fydd yn gwirio a yw'r **LPS** yn gweithio'n dda.

## Rhedeg yr **LPS**

**£17 miliwn**




Rydyn ni'n meddwl y bydd yr **LPS** yn costio £17 miliwn y flwyddyn i'w redeg.

**£7.5 miliwn**



- Mae hyn yn cynnwys £7.5 miliwn ar **eiriolaeth**,

**£3 miliwn**



- £3 miliwn ar asesiadau,

**£1 filiwn**



- £1 filiwn i wneud yn siŵr bod **Gweithwyr Proffesiynol Galluedd Meddyliol Cymeradwy** yn barod,

**£1 filiwn**



- £1 filiwn ar gostau cyfreithiol, ac

**£1 filiwn**



- £1 filiwn i wirio bod yr **LPS** yn gweithio'n dda.

Parhau **DoLS**

**£28 miliwn**



- Rydyn ni'n meddwl y byddai **DoLS** yn costio £28 miliwn y flwyddyn pe baen nhw'n parhau.

**LPS**






Rydyn ni'n meddwl y bydd **LPS** yn costio llai.

**LPS** 


## 2. Sut bydd yr LPS yn well na DoLS?



Bydd llai o asesiadau ar gyfer pob person sydd heb **alluedd**.



Gall mwy o weithwyr proffesiynol gynnal asesiadau.




Mae'r **LPS** yn cynnwys pawb sy'n 16 oed a throsodd sydd heb **alluedd**.



Mae'r **LPS** yn amddiffyn pobl sydd heb **alluedd** sy'n byw gartref.



Gall pawb sydd heb **alluedd** gael **Person Priodol** i'w cefnogi.



Gall pobl heb **alluedd** a'u **Person Priodol** ofyn am help gan yr **Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol**.



Bydd person newydd, y **Gweithiwr Proffesiynol Galluedd Meddyliol Cymeradwy**, yn rhoi cymorth ychwanegol gyda'r broses LPS.



## 3. Effaith ar hawliau plant

0-15



Ni fydd plant 15 oed ac iau sydd heb **alluedd** yn gweld unrhyw newid.

16-17




Bydd plant 16-17 oed sydd heb **alluedd** yn cael eu cynnwys yn yr **LPS**.

16-17



Ni fydd ceisiadau ar eu cyfer yn mynd i'r Llys Gwarchod.

16-17



Bydd gan blant 16-17 oed sydd heb **alluedd** fwy o lais.



## 4. Effaith ar bobl â nodweddion gwarchodedig




Bydd yr **LPS** yn helpu pobl â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys:



- Pobl hŷn sydd heb **alluedd**.



- Pobl ag anableddau sydd heb **alluedd**.



- Pobl o leiafrifoedd ethnig sydd heb **alluedd**.



Bydd ganddyn nhw:



- Mwy o hawliau **eiriolaeth**.




- Gwell amddiffyniad o ran hawliau dynol.



- Mwy o lais yn y broses.




## 5. Effaith ar bobl sy'n siarad Cymraeg








Bydd asesiadau a chymorth **eiriolaeth** ar gael yn Gymraeg.



# Beth i'w wneud nesaf


Ffurflen Ymateb

Gweithredu'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid: Rheoliadau newydd i Gymru

Dywedwch wrthon ni beth rydych chi'n ei feddwl erbyn xxxxxx

Mae gennym Ffurflen Ymateb

Ymgynghoriad Hawdd ei Ddarllen

yma:

https://llyw.cymru/gwarchod-diogelu-rhyddid

Llenwch hi a'i hanfon i:

MentalHealthandVulnerableGroups@gov.wales

Tîm Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed
Llywodraeth Cymru
4ydd Llawr Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Gwnaed gyda Photo Symbols®

# Geiriau neu ymadroddion sydd ag ystyr arbennig

| | |
|---|---|
| **Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid (LPS)** | Mae'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn rhoi rheolau a fydd yn diogelu hawliau Erthygl 5 unigolyn (16 oed neu hŷn) os oes angen iddo gael ei amddifadu o'i ryddid. |
| **Eiriolaeth** | Mae eiriolaeth yn golygu rhoi cymorth i unigolyn fel bod ei lais yn cael ei glywed |
| **Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol (IMCA)** | Unigolyn sy'n helpu'r unigolyn neu'r Person Priodol. Mae'n ei gefnogi i gymryd rhan, yn gallu siarad drosto a'i helpu i herio penderfyniadau. |
| **Galluedd** | Galluedd neu Alluedd Meddyliol yw'r gallu i wneud rhai penderfyniadau drosoch eich hun. |

| | |
|---|---|
| **Gweithiwr Proffesiynol Galluedd Meddyliol Cymeradwy (AMCP)** | Unigolyn a ddewisir gan y Corff Cyfrifol i roi cymorth ychwanegol gyda'r broses LPS. Bydd yn penderfynu a yw'r rheolau wedi cael eu dilyn pan fydd rhywun yn colli rhai o'i hawliau a'i ryddid.<br>O dan y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid rhaid gwneud gwiriadau cyn awdurdodi cynlluniau sy'n amddifadu unigolyn o'i ryddid. Weithiau (er enghraifft - os yw'r unigolyn yn byw mewn ysbyty annibynnol neu nad yw'n cytuno â'r cynlluniau gofal sy'n cael eu rhoi ar waith) bydd y gwiriad hwn yn cael ei wneud gan Weithiwr Proffesiynol Galluedd Meddyliol Cymeradwy. |
| **Person Priodol** | Dyma'r unigolyn sy'n cael ei ddewis i helpu a siarad ar ran rhywun sydd heb alluedd.<br>Gall y Person Priodol fod yn ofalwr di-dâl, perthynas, ffrind, unigolyn â phŵer atwrnai neu ddirprwy llys. |
| **Rheoliadau** | Deddf. |